# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Tachwedd 14eg 2018.

**Presennol.**

Cyng D.Morris, Cyng S.Roberts,Cyng G.Hughes,Cyng G.Jones

**Ymddiheuriadau**

Cyng Dixon, Cyng Edwards

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 10ed Hydref2018.**

Cynigwyd yn gywir gan Cyng Roberts yn cael ei eilio gan Cyng Morris.

**Diffribilydd**- Adroddodd y clerc fod gwaith i ymwneud a'r diffribilydd sydd wedi ei osod ar neuadd y pentref wedi ei gwblhau.

Derbyniwyd anfoneb gan y trydanwr Mr Rhys Jones am osod y peiriant am £185.16 yn gwneud y cyfanswm gwariant ar y peiriant yn £1541.

Derbyniwyd rhodd o £713 tuag at gostau y peiriant sy'n golygu fod y cyngor wedi talu'r gweddill £828.

Clerc i ysgrifennu at bapur Llygad y Dydd i hysbysybu y ffeithiau uchod ac i ddiolch i teulu Mr Arthur Owen (Son) am y rhodd ariannol tuag at y diffribilydd.

**Materion priffyrdd-** Mae'r asiantaeth cefnffyrdd( Mr Merfyn Morris) wedi ymateb i'r cyngor ynglyn a safon y ffens o gwmpas y ffos ddyfn yn y man parcio gyferbyn cyffordd yr A470 a'r ffordd sydd yn arwain at safle picnic Ty'n Y Groes wrth rhoi rhwystr dros dro o gwmpas y ffos.

Bydd y cyngor yn monitro'r sefyllfa yma.

**Cynghorydd Sir-** Ddim yn bresennol.

**Twristiaeth yng Ngwynedd-** Wedi debyn e-bost gan Mr Howard Huws Cydlynydd Ymgyrch Twristiaeth Cylch yr Iaith ynglyn a datblygiadau twristiaeth yng Ngwynedd a pholisi presennol Cyngor Gwynedd ar y pwnc a cynnal trafodaeth gan y cyngorhowyr ynglyn ar pwnc.

Penderfynwyd y cynghorwyr fod angen i ofyn i Cyngor Gwynedd ail edrych ar eu polisi presennol.

Gyrrwyd yr e-bost isod i Cyng Peredur Jenkins a Mr Howard Huws:

Fe drafodwyd cynnwys eich ebost yng nghyfarfod y cyngor Nos Fercher 14 o Dachwedd 2018.

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y mater yn un cymhleth gyda'r ardal yn dibynnu ar dwristiaeth i gyflogi pobl a dod ac incwm i mewn i ardal wledig.

Fodd bynnag mae'r cyngor yn cydweld gyda rhai o'r pwyntiau a godwyd yn yr ebost yn enwedig ynglyn a materion yn ymwneud a chaniatad cynllunio i brosiectau yn ymwneud a thwristiaeth heb edrych i mewn yn ddigon manwl ir effeithiau posibl ar y gymuned leol. Mae'r cyngor yn credu y dylai Cyngor Gwynedd edrych yn fwy manwl i fewn i faint o fudd (gwaith, arian i'r gymuned, codi proffil yr ardal) yn erbyn effeithiau eraill llai manteisiol (niwed i'r iaith gymraeg, newid cymeriad ardaloedd cymreig ac yn y blaen) cyn rhoi caniatad i unrhyw prosiect busnes/twristiaeth.

Fe ddanfonir copi o'r ebost hwn i'r Cynghorydd Sir lleol sef Mr Peredur Jenkins.

Bydd y cyngor yn trafod y mater hefo Cyng P.Jenkins yn ngyfarfod mis Rhagfyr.

**Materion ariannol-**

Cyllid misol Tachwedd:

**Cyson Banc: Hydref 2018**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | **£5809.43** |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Ad daliad trin a chadw llwybrau cyhoeddus** | |
| **Cyngor Gwynedd** | **£577.10** |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| **Ink ir printer** | **£ 23.90** |
| **Toiled Ganllwyd** | **£250.00** |
| **A.E.Evans gwaith glanhau** | **£ 40.00** |
| | |
| **Yn y Banc diwedd mis** | **£5972.63** |

Mae'r aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Biliau-

Cytunwyd i dalu £132 i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â chostau archwilio mewnol.

£185.16 i Mr Rhys Jones (Trydanwr) am waith gosod y diffribilydd ar Neuadd y pentref.

Mae’r clerc am gysylltu a’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gadarnhau eu bod am ad-dalu’r cyngor am y costau uchod.

Derbyniwyd ad daliad o £577.10 gan Cyngor Gwynedd ynglyn gwaith cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.

Mae’r clerc wedi gyrru ymateb i Fanc yr HSBC (24/10/2018) er mwyn diweddaru'r cofnodion sy'n gysylltiedig â chyfrif Banc y cyngor.

**Llythyrau & E-byst.**

Unigrwydd yn y Cartref - Derbyniwyd e-bost gan Bethan Roberts yn esbonio eu bod yn cynnal cyfarfod i drafod y mater hwn ym Mhorthmadog Tachwedd 16eg 2018.

Clerc i dosbarthu’r manylion i’r cynghorwyr.

Arolwg o’r trefniadau etholiadol Gwynedd- ar ôl archwilio'r dogfennau sy'n ymwneud â'r mater hwn, ymddengys ei bod yn arbed rhai mân fanylion na fydd yr adroddiadau yn effeithio ar redeg Cyngor Ganllwyd.

Tyddyn Gwladys- derbyinwyd e-bost gan Nia Davies (CNC) yn esbonio fod 5 unigolyn am gael CPN ynglyn amharchu ardal Tyddyn Gwladys.

**Unrhyw fater arall- dim**